*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Medi 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Anthony Jones** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Ardystiad ar gydymffurfio â gofynion asesu perfformiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn 2025-26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i'r Pwyllgor Archwilio ganlyniad yr archwiliad allanol ar fesurau gwella 2025/26 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-2026, a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 28 Ebrill 2025.

3 Mae'r mesurau gwella yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, sy'n gorfod adrodd ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan adrannau 17 ac 19 y Mesur.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

**CEFNDIR**

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â'r Mesur, ac amcanion llesiant i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin fel yr un pethau.

6 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau.
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella'n cael eu cyflawni; a
- Gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

**GWYBODAETH**

7 Mae CRhRC 2025-26 yn nodi amcanion yr Awdurdod, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Aelodau yng nghyfarfod 28 Ebrill 2025. Mae'n destun adolygiad archwilio gan Archwilio Cymru, sy'n gorfod cadarnhau a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r mesurau gwella.

8 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Cyllideb | Mae'r mesurau gwella a nodir yn CRhRC 2024-2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-2026 wedi'u seilio ar y broses gynllunio ariannol |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r gwaith datblygu ar CRhRC 2024-2029 yn ystyried y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod. |